# Ymgynghoriad ar y taliadau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol (NRCP)

Tachwedd 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i'r Archifau Cenedlaethol

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at residues@vmd.gov.uk.

# Cynnwys


Trosolwg .....4

Pwrpas .....4

Cwmpas daearyddol yr ymgynghoriad hwn .....4

Cynulleidfa .....4

Sut mae ymateb .....4

Cyfrinachedd a diogelu data .....5

Defnyddio eich gwybodaeth a’i rhannu .....6

Cyflwyniad .....7

Geirfa .....8

Amdanoch chi .....9

Rhesymeg .....10

Tabl 1: costau'r NRCP .....11

Graff 1: costau'r NRCP (£000) .....12

Cynnig .....13

Tabl 2: newidiadau arfaethedig i Atodlen 1 .....14

Tabl 3: enghraifft ddangosol o effaith ariannol debygol y cynigion ar y sector gwartheg yn yr NRCP .....16

Tabl 4: enghraifft ddangosol o effaith ariannol debygol y cynigion ar brosesydd gwartheg nodweddiadol yn yr NRCP .....17

Yr Effaith Ddisgwyliedig ar Fusnesau .....18

Y Camau Nesaf .....18

# Trosolwg

Mae'r Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol (NRCP) yn rhaglen wyliadwriaeth flynyddol statudol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i samplu a phrofi cynhyrchion anifeiliaid bwyd, am weddillion meddyginiaethau milfeddygol a sylweddau gwaharddedig cyn iddynt ymuno â'r gadwyn fwyd. Mae hyn yn helpu i ddiogelu iechyd pobl ac yn rhoi sicrwydd am ddiogelwch a safonau bwyd. Mae'r rhaglen yn rhan o Gynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwydd y Deyrnas Unedig (MANCP y DU) sef fframwaith y systemau rheoli swyddogol sydd ar waith ar gyfer cyfraith bwyd a phorthiant ac iechyd anifeiliaid (gan gynnwys anifeiliaid dyfrol ac iechyd gwenyn) a rheolau lles anifeiliaid. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn cwmpasu'r canlynol:

1. cig coch
2. cig dofednod
3. pysgod wedi'u ffermio
4. wyau
5. anifeiliaid hela gwyllt ac anifeiliaid hela wedi'u ffermio
6. mêl
7. llaeth
8. casinau selsig

## Pwrpas

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygiadau arfaethedig i'r taliadau ar gyfer cyflawni'r NRCP. Mae angen y taliadau newydd arfaethedig i adennill costau'n llawn, ac i sicrhau bod yr NRCP yn parhau i fod yn effeithiol ac yn hyfyw.

## Cwmpas daearyddol yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae'n cael ei gynnal gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

## Cynulleidfa

Caiff unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad. Gallai'r rhai a allai fod â diddordeb penodol gynnwys:

Gweithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

## Sut mae ymateb

Y ffordd orau i ni gael ymatebion yw drwy'r llwyfan Citizen Space.

Os nad ydych chi'n gallu defnyddio Citizen Space, gallwch lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori a dychwelyd eich ymateb drwy e-bost i residues@vmd.gov.uk.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd ar gael yn Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para 8 wythnos. Mae'r ymgynghoriad yn agor ar 24/11/2025 ac yn dod i ben am 23:59 ar 19/01/2026. Ni fyddwn yn dadansoddi unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn

## Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Gall Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat (er enghraifft cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost).

Os byddwch yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw ran o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro eich rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm dros hyn yw y gallai gwybodaeth i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu i bartïon eraill yn unol â'r gyfraith mynediad at wybodaeth (yn bennaf, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Deddf Diogelu Data 2018). Mae gennym ymrwymiadau, yn bennaf o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol. Oherwydd hyn, byddai eich esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o'ch ymateb yn ein helpu i gydbwyso'r ymrwymiadau hyn i ddatgelu yn erbyn unrhyw ymrwymiad cyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais i gadw'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn gyfrinachol, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gadw eich ymateb yn gyfrinachol, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Os byddwch yn ateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw ran o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd ond ni fydd eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat ar gael yn gyhoeddus.

Efallai y bydd adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu wrth ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, â dadansoddwyr allanol. Mae hyn at ddibenion dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

Mae ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i lanlwytho fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw i: consultation.coordinator@defra.gov.uk

# Defnyddio eich gwybodaeth a'i rhannu

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a'r ymarfer galwad am dystiolaeth sydd ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice.cy

**Gwybodaeth Arall**

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet y gellir eu gweld yn: Microsoft Word - Consultation Principles (1).docx (publishing.service.gov.uk)

# Cyflwyniad

Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Mae'r VMD yn rheoli'r Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol (NRCP), sy'n rhaglen statudol wedi'i chynllunio i helpu i nodi gweddillion sylweddau gwaharddedig, meddyginiaethau milfeddygol a halogyddion mewn cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y gadwyn fwyd. Mae'r NRCP yn helpu i ddiogelu iechyd pobl ac yn rhoi sicrwydd i bartneriaid masnachu'r DU am ansawdd a diogelwch cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac sy'n cael eu hallforio. Mae'r rhaglen yn helpu i gefnogi masnach ryngwladol gwerth tua £12biliwn y flwyddyn i economi'r DU.

Mae gwyliadwriaeth a pholisi gweddillion yn fater datganoledig, felly mae'r VMD yn gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i gyflawni'r NRCP ym Mhrydain Fawr.

Mae'r rhaglen yn gweithredu ar sail adennill costau llawn, felly mae pob un o'r sectorau da byw sy'n cymryd rhan yn cael ei anfonebu bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn costio tua £6.6 miliwn y flwyddyn, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd tua £7m y flwyddyn erbyn 2028. Mae hyn oherwydd cynnydd yng nghostau gwasanaethau sy'n cael eu caffael sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen fel samplu, profi a nwyddau traul. Heb y diwygiadau arfaethedig i'r taliadau presennol y mae'r diwydiant yn eu talu, rhagwelir na fydd gwerth £1,000,000 o gostau'r rhaglen yn cael eu hadennill ym mlwyddyn ariannol 2026/27.

Nod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd hwn gan y VMD, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yw egluro a gofyn am farn ar effaith ein cynigion i gynyddu'r taliadau y bydd cyfranogwyr yn yr NRCP sy'n dod o'r diwydiant yn eu talu yn ystod blynyddoedd ariannol 2026 a 2027. Nodir y newidiadau arfaethedig yn Nhabl 2 (Ar dudalen 14, ac maent ar gael yn y ddogfen atodol ar wahân). Gan fod hon yn rhaglen statudol, er mwyn gweithredu'r diwygiadau hyn, byddai angen diweddaru Atodlen 1 o Reoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) 2024 (Atodlen 1). Gan fod hwn yn fater datganoledig, byddai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU yn gosod Offerynnau Statudol ar wahân ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r VMD yn gweithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr masnachol a'n partneriaid cyflenwi i sicrhau gwerth am arian yr NRCP ac mae crynodeb o'r gweithgarwch hwn yn cael ei ddisgrifio yn adran 'cefndir' y ddogfen atodiadau ar wahân. Rydym hefyd wedi darparu gwybodaeth gefndir ychwanegol am gostau'r NRCP yn yr atodiad.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, oherwydd bod swm y cynigion yn llai na £10 miliwn. Drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, mae'r VMD, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar effeithiau ariannol ac effeithiau eraill posibl y cynigion hyn.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn ymwneud yn llwyr â chynigion i newid y taliadau statudol ar gyfer yr NRCP yn ystod blynyddoedd ariannol 2026 a 2027. Mae awgrymiadau ehangach i ddiwygio swyddogaethau craidd yr NRCP fel y dulliau gwyddonol, y sylweddau milfeddygol rydym yn profi amdanynt, neu amlder samplu a phrofi, y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Y rheswm dros hyn yw bod sail statudol wahanol i'r agweddau hynny.

## Geirfa

Mae rhestr o dermau a diffiniadau perthnasol wedi'i chynnwys er gwybodaeth a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

| | |
|---|---|
| NRCP | Rhaglen statudol yw'r Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol i gasglu samplau o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl. Mae'r samplau hyn yn cael eu profi i chwilio am weddillion sylweddau gwaharddedig gwahanol. |
| Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion | Mae Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006 yn nodi'r cyfraddau sydd i'w talu gan y sectorau a gwmpesir gan y rhaglen wyliadwriaeth. |
| POAO | Cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl. Ymhlith yr enghreifftiau mae wyau, cig dofednod, selsig a physgod. |
| Croes-gymhorthdal | Rhoi croes-gymhorthdal yw'r arfer o godi prisiau uwch ar un math o ddefnyddiwr er mwyn gostwng prisiau'n artiffisial ar gyfer grŵp arall. |
| Rheoli Arian Cyhoeddus | Cynhyrchir y ddogfen hon gan Drysorlys EM ac mae'n nodi'r prif egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau mewn sefydliadau sector cyhoeddus yn y DU. |
| Trwybwn | Yn y cyd-destun hwn, mae hyn yn cyfeirio at nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu prosesu mewn lladd-dy. |
| AFBI | Y Sefydliad Bwyd-Amaeth a Biowyddorau. |

# Amdanoch chi

1. A ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Ydw
- Nac ydw
- Os mai 'ydw' oedd eich ateb, rhowch eich rheswm:

2. Ydych chi'n ymateb fel: (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Unigolyn – Rydych chi'n ymateb gyda'ch barn bersonol, yn hytrach nag fel cynrychiolydd swyddogol busnes, cymdeithas fusnes neu sefydliad arall

- Sefydliad – Rydych chi'n ymateb yn swyddogol fel cynrychiolydd busnes, cymdeithas fusnes neu sefydliad arall

- Corff sector cyhoeddus – Yn swyddogol fel cynrychiolydd sefydliad llywodraeth leol / darparwr gwasanaeth cyhoeddus / corff sector cyhoeddus arall yn y DU neu rywle arall

- Diwydiant - Yn swyddogol gan gynrychioli barn busnes

- Grŵp ymgyrchu/corff anllywodraethol - Yn swyddogol fel cynrychiolydd sefydliad anllywodraethol / undeb llafur / sefydliad arall

- Byd academaidd - Yn swyddogol fel cynrychiolydd sefydliad academaidd

- Arall (rhowch fanylion):

3. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich rôl neu'r maes rydych chi'n perthyn iddo? (Os oes gennych chi fwy nag un rôl, dewiswch yr un sy'n cynrychioli eich buddiannau chi orau yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad) (dewiswch un opsiwn yn unig)

- Prosesydd Bwyd
- Gweithredwr Busnesau Porthiant
- Manwerthwr meddyginiaethau milfeddygol
- Milfeddyg
- Person â'r cymwysterau priodol
- Academydd
- Defnyddiwr
- Ceidwad proffesiynol anifeiliaid
- Arall, rhowch wybodaeth:

4. Beth yw enw eich sefydliad?

5. Dewiswch ble rydych chi/eich sefydliad wedi'ch lleoli (dewiswch bob un sy'n berthnasol):

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Arall

# Rhesymeg

1. Mae'r VMD yn cynnig gwneud newidiadau i Atodlen 1 y Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion i adennill costau am ddarparu'r NRCP tan y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2028. Bydd y VMD, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn parhau i fonitro'r gwaith o gyflawni'r rhaglen a byddant yn ymgynghori'n gyhoeddus os bydd angen diwygiadau pellach i'r taliadau yn y dyfodol.


2. Mae Tabl 1 yn dangos costau hanesyddol a rhagamcanol yr NRCP hyd at y flwyddyn ariannol sy’n dod i ben ym mis Mawrth 2028. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024 i 2025, bu cynnydd o 4% mewn costau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, ac rydym yn rhagweld y bydd cynnydd o 35% mewn costau ym mlwyddyn ariannol 2025 i 2026. Rydym yn rhagweld y bydd costau'n parhau i gynyddu 5% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn oherwydd cynnydd na ellir ei osgoi mewn gorbenion a chostau eraill fel samplu, prosesu a phrofi.

3. Mae Tabl 1 hefyd yn dangos, ar sail cyfraddau presennol Atodlen 1, na fydd digon o gostau'n cael eu hadennill, gan arwain at ddiffyg o £0.8 miliwn erbyn 2025 i 2026. Fodd bynnag, byddai'r diffyg yn gostwng i sero erbyn 2026 pe bai cyfraddau Atodlen 1 yn cael eu diweddaru fel y cynigir yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r llinellau solet a thoredig ar Graff 1 hefyd yn dangos yr wybodaeth hon.

## Tabl 1: costau'r NRCP

| Blwyddyn ariannol | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Cyfanswm cost NRCP - Lloegr** | 2.9 | 2.8 | 2.9 | 3.1 | 3.3 | 3.6 | 5.0 | 5.2 | 5.3 |
| **Cyfanswm cost NRCP - Cymru** | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.4 | 0.4 | 0.6 | 0.6 | 0.6 |
| **Cyfanswm cost NRCP - yr Alban** | 0.6 | 0.6 | 0.6 | 0.6 | 0.7 | 0.7 | 1.0 | 1.1 | 1.1 |
| **Cyfanswm cost NRCP** | **3.8** | **3.7** | **3.8** | **4.1** | **4.4** | **4.7** | **6.6** | **6.8** | **7.0** |
| **Incwm a ganiateir yn unol ag Atodlen 1** | 3.8 | 3.7 | 3.8 | 4.1 | 4.4 | 4.5 | 5.8 | 5.8 | 5.8 |
| **Adennill costau a ganiateir yn unol ag Atodlen 1** | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -0.2 | -0.8 | -1.0 | -1.2 |
| **Incwm a ganiateir gan gynigion yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn** | | | | | | | | 6.8 | 7.0 |
| **Adennill costau a ganiateir gan gynigion yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn** | | | | | | | | 0.0 | 0.0 |

## Graff 1: costau'r NRCP (£000)




Mae paragraff 3 yn egluro'r tueddiadau a nodir gan y graff hwn.

# Cynnig

4. Ystyriwyd yr opsiynau canlynol:

   A. **gwneud dim.** Ni fydd Atodlen 1 yn newid, a byddai’r taliadau'n cael eu cadw ar y lefelau presennol

   B. **cynnydd cyfradd safonol o 22%** yn y taliadau yn Atodlen 1, sy’n berthnasol ar draws pob sector sy'n cymryd rhan yn yr NRCP

   C. **cynnydd canrannol penodol** wedi'i deilwra ar gyfer sectorau'r diwydiant ar sail eu cynlluniau samplu penodol, eu costau profi a'u lefelau cynhyrchu

   Ni fyddai **Opsiwn A** yn adennill costau'n llawn. Felly, byddai'r opsiwn hwn yn bygwth hyfywedd yr NRCP sy'n angenrheidiol i helpu i ddiogelu iechyd pobl. Mae'r NRCP hefyd yn cefnogi allforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n werth £12biliwn i economi'r DU, ac fe allai hyn gael ei roi yn y fantol heb weithredu.

   Byddai **Opsiwn B** yn arwain at gynnydd anghymesur mewn ffioedd ar gyfer rhai sectorau ac at fethiant parhaus i adennill digon o gostau mewn sectorau eraill. Mae meintiau cynhyrchu a chostau samplu pob sector yn amrywio, felly, mewn gwirionedd, byddai rhai sectorau'n rhoi croes-gymhorthdal i sectorau eraill.

   Ystyrir mai **Opsiwn C** yw'r opsiwn mwyaf priodol a theg gan ei fod yn cydnabod nad oes gan bob sector yr un proffil cost. Mae hyn oherwydd y trefniadau samplu a phrofi gwahanol, sy'n cael eu pennu'n ofalus bob blwyddyn ar sail asesiadau risg a ffactorau eraill. Er enghraifft, mae samplu blynyddol yn y sector gwartheg yn gyfrannol fwy nag mewn sectorau eraill. Mae hyn, ynghyd â chynhyrchiant gwartheg is yn gyffredinol, yn golygu bod costau'n cael eu lledaenu ar draws llai o garcasau ac felly'n arwain at dâl uwch fesul carcas. Mae samplu mewn sectorau eraill yn fwy cymesur debyg.

   I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hasesiad mai'r dull mwyaf teg o ddiwygio Atodlen 1 yw opsiwn C? Rhowch resymau am eich ateb.

   - Cytuno'n gryf
   - Cytuno
   - Niwtral
   - Anghytuno
   - Anghytuno'n gryf
   - Ddim yn gwybod

5. Mae Tabl 2 yn dangos y newidiadau arfaethedig i Atodlen 1 ar sail opsiwn C. Rydym wedi defnyddio'r tybiaethau canlynol:

    - mae'r lefelau cynhyrchu a ragwelir ar gyfer pob math o anifail neu gynnyrch anifeiliaid yn seiliedig ar gyfartaledd o lefelau 2024 i 2025
    - rhagwelir y bydd costau contract allanol yn cynyddu yn unol â'r chwyddiant bob blwyddyn
    - bydd y tîm VMD sy'n gyfrifol am reoli'r NRCP yn aros yn sefydlog o ran maint am y 2 flynedd nesaf
    - rhagwelir y bydd costau cyflogaeth a gorbenion yn cynyddu 5% bob blwyddyn
    - bydd y cyfraddau newydd arfaethedig yn dod i rym o wanwyn 2026 ymlaen

6. Mae Tabl 3 a Thabl 4 yn darparu enghraifft ddangosol o effaith ariannol debygol y cynigion hyn ar sector nodweddiadol ac ar gynhyrchydd nodweddiadol yn yr NRCP.

## Tabl 2: newidiadau arfaethedig i Atodlen 1

| Math o anifail neu gynnyrch anifeiliaid | Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) 2024 ar gyfer taliadau (£) ar neu ar ôl Ebrill 2025 | Taliadau arfaethedig (£) yn 2026 - 2027 | Cynnydd gwirioneddol (£) | Taliadau arfaethedig (£) yn 2027 - 2028 | Cynnydd gwirioneddol (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwartheg | 0.7617 y carcas | 0.9964 y carcas | 0.2347 y carcas | 1.0216 y carcas | 0.0252 y carcas |
| Geifr | 0.0751 y carcas | 0.0864 y carcas | 0.0113 y carcas | 0.0886 y carcas | 0.0022 y carcas |
| Defaid | 0.0751 y carcas | 0.0864 y carcas | 0.0113 y carcas | 0.0886 y carcas | 0.0022 y carcas |
| Anifeiliaid carngaled | 0.4660 y carcas | 0.5359 y carcas | 0.0699 y carcas | 0.5495 y carcas | 0.0136 y carcas |
| Moch | 0.0735 y carcas | 0.0845 y carcas | 0.0110 y carcas | 0.0867 y carcas | 0.0022 y carcas |
| Anifeiliaid hela ac anifeiliaid hela gwyllt | 1.0461 y dunnell | 1.0461 y dunnell | 0 y dunnell | 1.0461 y dunnell | 0 y dunnell |
| Dofednod | 0.6432 y dunnell | 0.7397 y dunnell | 0.0965 y dunnell | 0.7584 y dunnell | 0.0187 y dunnell |
| Wyau | 0.0206 fesul pecyn o 360 | 0.0237 fesul pecyn o 360 | 0.0031 fesul pecyn o 360 | 0.0243 fesul pecyn o 360 | 0.0006 fesul pecyn o 360 |
| Llaeth | 0.0405 fesul 1000 litr | 0.0466 fesul 1000 litr | 0.0061 fesul 1000 litr | 0.0478 fesul 1000 litr | 0.0012 fesul 1000 litr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pysgod ar wahân i frithyll | 2.3546 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata | 2.7078 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata | 0.3532 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata | 2.7764 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata | 0.0686 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata |
| Brithyll | 2.8222 fesul tunnell o fwyd pysgod | 3.2455 fesul tunnell o fwyd pysgod | 0.4233 fesul tunnell o fwyd pysgod | 3.3278 fesul tunnell o fwyd pysgod | 0.0823 fesul tunnell o fwyd pysgod |

## Tabl 3: enghraifft ddangosol o effaith ariannol debygol y cynigion ar y sector gwartheg yn yr NRCP

| Sector gwartheg ym Mhrydain Fawr | Gwerth | Sylwadau |
|---|---|---|
| Trwybwn gwirioneddol 24/25 (cyfanswm y carcasau a broseswyd) | 2283323 | |
| Tâl cyfredol fesul carcas yn unol ag Atodlen 1 | £0.7617 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r sector yn ystod blwyddyn ariannol 2025 i 2026** | **£1,739,207** | **Disgwylir tâl o £1.7m o'i gymharu â'r gost ddisgwyliedig o £2.2m ar gyfer 25/26** |
| Cyfradd arfaethedig fesul carcas 2026 i 2027 | £0.9964 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r sector yn ystod blwyddyn ariannol 2026 i 2027** | **£2,275,103** | |
| Cyfradd arfaethedig fesul carcas 2027 i 2028 | £1.0216 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r sector yn ystod blwyddyn ariannol 2027 i 2028** | **£2,332,643** | Taliadau blwyddyn lawn ar gyfradd newydd 2027 i 2028 |

Ar sail y tybiaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5, mae'r tabl yn dangos y byddai'r sector gwartheg yn talu cyfanswm o tua £2.2 miliwn yn ystod 2026 i 2027, ac oddeutu £2.3 miliwn yn ystod 2027 i 2028.

## Tabl 4: enghraifft ddangosol o effaith ariannol debygol y cynigion ar brosesydd gwartheg nodweddiadol yn yr NRCP

| Prosesydd gwartheg ym Mhrydain Fawr | Gwerth | Sylwadau |
|---|---|---|
| Trwybwn gwirioneddol 24/25 (cyfanswm y carcasau a broseswyd) | 102404 | Byddai hyn yn cael ei ystyried yn gynhyrchydd lefel uchel nodweddiadol yn yr NRCP |
| Cyfradd gyfredol fesul carcas yn unol ag Atodlen 1 | £0.7617 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r prosesydd yn ystod blwyddyn ariannol 2025 i 2026** | **£78,001** | |
| Cyfradd arfaethedig fesul carcas 2026 i 2027 | £0.9964 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r prosesydd yn ystod blwyddyn ariannol 2026 i 2027** | **£102,035** | |
| Cyfradd arfaethedig fesul carcas 2027 i 2028 | £1.0216 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r prosesydd yn ystod blwyddyn ariannol 2027 i 2028** | **£104,616** | Taliadau blwyddyn lawn ar gyfradd arfaethedig 2027 i 2028 |

Ar sail y tybiaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5, mae'r tabl yn dangos y byddai'r prosesydd gwartheg cynhyrchiant uchel nodweddiadol yn talu tua £102,000 yn ystod 2026 i 2027, ac oddeutu £105,000 yn ystod 2027 i 2028.

# Yr Effaith Ddisgwyliedig ar Fusnesau

7. Byddai'r newidiadau arfaethedig hyn yn diwygio ffigurau Atodlen 1, felly fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am eich barn ar y cwestiynau canlynol i'n helpu i ddeall yn well sut gallai'r newidiadau effeithio ar randdeiliaid sy'n dod o dan y cynllun:

Pa effaith fyddech chi'n disgwyl i'r cyfraddau diwygiedig ei chael ar faint eich elw?

- Effaith uchel
- Effaith ganolig
- Effaith isel
- Dim effaith o gwbl
- Ddim yn gwybod

Fyddech chi'n disgwyl amsugno neu drosglwyddo'r gost ychwanegol hon i'ch cwsmeriaid?

- Amsugno
- Trosglwyddo
- Arall
- Dim un o’r uchod
- Ddim yn gwybod

Os ydych chi wedi dewis “dim un o'r uchod” neu “arall”, nodwch beth ddylai ddigwydd i'r gost ychwanegol hon.

Sut byddai'r diwygiad hwn i'r ffi yn effeithio ar y galw am eich nwyddau a'ch gwasanaethau?

- Cynyddu’r galw
- Byddai'r galw yn aros yr un fath
- Lleihau'r galw
- Ddim yn gwybod

# Y Camau Nesaf

1. Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, bydd y VMD, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, yn cyhoeddi ymateb ffurfiol gan y llywodraeth o fewn y cyfnod o 12 wythnos a argymhellir.

2. Byddai Offerynnau Statudol ar wahân yn cael eu cyflwyno i graffu arnynt yn Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Senedd y DU cyn i'r ffioedd newydd arfaethedig ddod i rym.